

Archifau Lloyd George yn LLGC

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi cyhoeddi llyfryn darluniadol 95 tudalen gan yr archifydd cynorthwyol Dr J Graham Jones, sy'n disgrifio cynnwys saith archif a gedwir yn y Llyfrgell yn ymwneud â'r Prif Weinidog Rhyddfrydol,

David Lloyd George (1863-1945) ac aelodau o'i deulu.

Yn 1910 wedi i Lloyd George, Canghellor y Trysorlys ar y pryd, ddyfarnu grant gan y llywodraeth i ddatblygu Llyfrgell Genedlaethol Cymru, canodd ei gyd-

weithiwr, Syr John Herbert Lewis, AS Y Fflint, ei glodydd yn hynod ddiolchgar am ei 'weithred ddewr', a phroffwydo y deuai'r dydd pan fyddai'r Llyfrgell yn fawsolëwm llenyddol iddo. Erbyn hyn fe gyflawnwyd y broffwydoliaeth honno i raddau helaeth.

Er bod y casgliad helaethaf o bapurau Lloyd George ym meddiant yr Archif Seneddol yn Nhŷ'r Arglwyddi, mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn awr yn gartref i nid llai na saith casgliad arall o bwys, chwech ohonynt wedi dod i law yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf.

Mae'r llyfryn yn amlinellu cynnwys pob un o'r casgliadau hyn gan dynnu sylw at yr eitemau hanesyddol mwyaf arwyddocaol a dyfynnu'n helaeth o'r ohebiaeth a dogfennau eraill. Ymysg y rhain ceir rhediadau tra diddorol o lythyrau Lloyd George at ei wraig gyntaf, y Fonesig Margaret; ei frawd William; a'i hoff ewyrth, Richard Lloyd.

Mae'r llyfryn hefyd yn cynnwys cronoleg fras o yrfa Lloyd George, manylion am archifau Lloyd George sydd ar gadw mewn sefydliadau eraill (yn enwedig yr Archif Seneddol a'r Archifdy Gwladol), ffotograffau a chartwnau; a llyfryddiaeth o gofiannau a monograffau eraill a fydd o gymorth arbennig i fyfyrwyr sy'n astudio Lloyd George a'r Blaid Ryddfrydol.

Mae'r Dr J Graham Jones yn awdur cynhyrchiol ar hanes gwleidyddiaeth Cymru yr ugeinfed ganrif ac yn arbenigwr ar fywyd a gyrfa Lloyd George.

LLOYD GEORGE PAPERS

AT THE NATIONAL LIBRARY OF WALES AND OTHER REPOSITORIES



THE (PUSH-AND-) GO CART.

LLOYD GEORGE: "Ah! This is the way to develop your arms!!"

J. GRAHAM JONES

Mae J Graham Jones, *Lloyd George Papers at the National Library of Wales and other repositories* ar gael o'r Llyfrgell (01970 632858) am £4.99 – cludiant yn ychwanegol.

Yr Archif Wleidyddol Gymreig

Y Ddarlith Flynyddol 2001

Hywel Williams
(The Guardian)

'Of Princes, Power and Plots:

Deciding and Advising in Modern Government'

Yr Hen Goleg, Aberystwyth

5.30 y.h. Gwener, 2 Tachwedd

Yr Archif Wleidyddol Gymreig

Sefydlwyd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 1983 i gydlynw'r gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth Cymru. Cesglir cofysgrifau a phapurau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion, mudiadau lled-wleidyddol, ymgyrchoedd a charfanau pwyso; taflenni, pamffledi, ac effemera printiedig eraill; posteri a ffotograffau; a thâpiau rhaglenni radio a theledu.

Aelodau'r Pwyllgor

Ymgynghorol:

Mr Andrew Green (Llyfrgellydd),
Dr Denis Balsom, Mr Ian Barton,
Yr Athro Emeritws Deirdre Beddoe,
Miss Beata Brookes, Mr Cynog Dafis
AC, Mr Darron Dupré, Mr Aled
Eurig, Mr Tom Ellis, Mr Gwyn
Griffiths, Mr Adam Higgitt,
Yr Athro Deian Hopkin, Mr Dafydd
Llyr James, Yr Athro Aled Jones,
Mr D Elwyn Jones, Mr D L Jones,
Yr Arglwydd Morgan o Aberdyfi,
Mrs Julie Morgan AS, a phum aelod
o staff LIGC.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â
John Watts-Williams neu
Nia Mai Williams

Yr Archif Wleidyddol Gymreig
Llyfrgell Genedlaethol Cymru,
Aberystwyth, Ceredigion, Cymru,
SY23 3BU
Tel: 01970 632878
Fax: 01970 632883
niw@llgc.org.uk
www.llgc.org.uk/lc/awg_c_awg.htm


Canmlwyddiant y Blaid Lafur yng Nghymru

Cynhaliwyd darlith flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig ar 3 Tachwedd 2000. Yn y flwyddyn yr oedd y Blaid Lafur yn dathlu ei chanmlwyddiant gwahoddwyd yr Athro Dai Smith i ddarlithio.

Archwiliodd y berthynas rhwng gwleidyddiaeth y Blaid Lafur a diwylliant dosbarth gweithiol Cymru dros y ganrif ddiwethaf.

Mewn darlith bryfoclyd ceisiodd ddadansoddi cefnogaeth y Blaid Lafur yng Nghymru a'r rhesymau dros ei hegemoni draddodiadol yng nghadarnleoedd y blaid. Wrth wneud hynny eglurodd ddiwylliant y bobl y deilliodd y Blaid Lafur ohonynt: eu hanes, eu hymwybyddiaeth o ddosbarth, a'u delfrydau.

Ymhlith y dylanwadau cryfaf ar eu gwleidyddiaeth yr oedd Streic Gyffredinol 1926, y Coleg Llafur Canolog, a Ffederasiwn Glowyr De




Yr Athro Dai Smith

Cymru, neu'r 'Ffed'. Roedd Keir Hardie ac Aneurin Bevan ymhlith y gwleidyddion Llafur a gynrychiolodd y bobl gan adlewyrchu eu diwylliant.

Portreadir y diwylliant hwn mewn llên a chelfyddyd, a thynnodd Dai Smith sylw at rai o'r portreadau a oedd yn gymeradwy ganddo neu'n anghymeradwy.

Mae'r Athro Dai Smith yn awdurdod ar hanes gwleidyddol a diwylliannol Cymru, ac yn awdur hanes swyddogol glowyr De Cymru. Ef yw awdur *Aneurin Bevan and the world of South Wales* (1993), ac y mae ar hyn o bryd yn llunio astudiaeth o'r nofelydd a'r hanesydd cymdeithasol, Raymond Williams. Mae erbyn hyn yn Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Morgannwg.

Mae copïau o'r ddarlith ar gael o'r Llyfrgell (01970 632858) am £4.00, gan gynnwys cludiant.



Papurau Eirene White



Mrs Eirene White AS yn 1964

Hyfrydwch i'r Llyfrgell oedd derbyn archif o bapurau personol, gwleidyddol a theuluol Eirene Lloyd White, y Fonesig White o Rhymini (1909-1999).

Etholwyd Eirene White yn AS Llafur dros Ddwyrain Fflint yn 1950 a bu'n cynrychioli'r etholaeth hyd at 1970. Yn 1950 yr oedd yn un o'r merched cyntaf i gynrychioli Cymru yn y Senedd, ynghyd â Megan Lloyd George (Ynys Môn) a Dorothy Rees (Y Barri).

Wedi cynnig yn aflwyddiannus am etholaeth Sir Y Fflint dros y Blaid Lafur yn 1945, trodd ei llaw at newyddiaduraeth gan weithio i'r *Manchester Evening News* ac i'r BBC yn Nhŷ'r Cyffredin. Yn 1948 priododd â John Cameron White (1911-1968) a fu'n cydweithio â hi fel gohebydd yng nghynteddau Tŷ'r Cyffredin.

Pan ddaeth y Blaid Lafur i rym yn 1964 o dan arweinyddiaeth Harold Wilson fe'i penodwyd yn Ysgrifennydd Seneddol Preifat yn Swyddfa'r Trefedigaethau. Fe'i

dyrchafwyd yn Weinidog Gwladol Materion Tramor yn 1966 ac yn Weinidog Gwladol yn y Swyddfa Gymreig yn 1967, lle y bu'n gweithio'n ddiwyd am dair blynedd, yn bennaf i George Thomas.

Ar ôl bod yn Gadeirydd y Blaid Lafur, 1968-69, penderfynodd ymddeol o Dŷ'r Cyffredin ym Mehefin 1970, gan ymuno â Thŷ'r Arglwyddi fel Arglwyddes White o Rhymini.

Yn ystod ei chyfnod hir yn y siambr uchaf, bu'r Fonesig White yn dal nifer helaeth o swyddi cyhoeddus, llawer ohonynt yng Nghymru. Roedd hefyd yn Ddirprwy Lefarydd diflino yn Nhŷ'r Arglwyddi o 1979 tan 1989.

Yr archif

Rhennir papurau Eirene White yn chwe dosbarth. Mae dosbarth P yn cynnwys ffeiliau hynod lawn o lythyrau a ddanfonwyd ati, 1928-99, y rhan fwyaf ohonynt yn tarddu o'i bywyd gwleidyddol a chyhoeddus prysur. Ysgrifennwyd llawer ohonynt gan wleidyddion a ffigyrau cyhoeddus amlwg Prydain a Chymru.

Yn eu plith mae James Callaghan, Dr Huw T. Edwards, Hugh Gaitskell, y Fonesig Megan Lloyd George, Cledwyn Hughes, Roy Jenkins, George Bernard Shaw, Shirley Williams a Harold Wilson. Ceir hefyd gyfres o ddyddiaduron poced, 1936-84, a ffeiliau o bapurau'n deillio o'i chyfnod fel myfyrwraig yn Rhydychen, a'i theithiau tramor helaeth.

Mae'r ffeiliau yn nosbarth L yn ymwneud â'i diddordebau gwleidyddol ym Mhrydain a thramor. Mae'r papurau sy'n ymwneud â

gwleidyddiaeth yn etholaeth Dwyrain Fflint o ddiddordeb arbennig i'r Archif Wleidyddol Gymreig, yn enwedig ymgyrchoedd yr Etholiadau Cyffredinol o 1945 i 1966. Maent yn taflu goleuni ar drefniadaeth y Blaid Lafur mewn rhanbarth ymylol, a lled ddiwydiannol. Llwyddodd y Fonesig White i ddal ei gafael ar y sedd am ugain mlynedd, 1950-1970.

Mae papurau dosbarth C yn ymwneud â gweithgareddau a diddordebau amrywiol y Fonesig White, a'i gwaith cyhoeddus y tu allan i wleidyddiaeth. Mae dosbarth W yn ymwneud â gwleidyddiaeth Cymru a materion Cymreig.

Mae dosbarth E yn ymwneud â themâu addysgol, yn fwyaf nodedig gweithgareddau Pwyllgor Grantiau'r Brifysgol, Coleg Harlech, a Phrifysgol Cymru a'r Sefydliad Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Tad y Fonesig White oedd yr enwog Dr Thomas Jones CH (1870-1955), Dirprwy Ysgrifennydd y Cabined i bedwar prif weinidog yn olynol. Ymysg y papurau teuluol yn nosbarth F ceir llythyrau a phapurau pwysig yn ymwneud â Thomas Jones sy'n ychwanegiad rhagorol at yr archif godidog o'i bapurau a oedd eisoes yn y Llyfrgell. Mae'r dosbarth hwn hefyd yn cynnwys papurau arwyddocaol yn ymwneud â bywyd a gyrfa newyddiadurol John White, ac ambell aelod arall o'r teulu.

Yn olaf, ceir grŵp mawr o ddeunydd printiedig a theipysgrif, a chasgliad o doriadau papur newydd yn Nosbarth R. Mae'r papurau wedi cael eu catalogio, ac nid oes unrhyw waharddiad amynt.

Derbyniadau diweddar

Derbyniwyd papurau ychwanegol y diweddar **Donald Coleman**, AS Castell Nedd, 1964-91, yn ymwneud yn bennaf â'i waith yn y Cyngor Ewropeaidd, y Blaid Lafur a Thŷ'r Cyffredin, 1965-90.

Rydym wedi prynu copiâu microffilm ychwanegol o gofnodion lleol y Blaid Lafur, sef cofnodion **Cyngor Masnach a Phlaid Lafur Abertawe**, 1902-84, (MFL 58) sydd yng ngofal Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, a chofnodion y **Blaid Lafur yn etholaeth Casnewydd**, 1912-77, (MFL 59), sydd yng ngofal Prifysgol Cymru Abertawe. Hefyd rydym wedi prynu microffilmiau ychwanegol o **Bapurau'r Cabined**, hyd at 1970 (MFL 55).



Derbyniwyd ychwaneg o bapurau a gohebiaeth yr **Arglwydd Tonypandy**, gan gynnwys gohebiaeth gydag ASau ac aelodau Tŷ'r Arglwyddi, 1994-95.

Derbyniwyd copi o erthygl deipysgrif heb ei chyhoeddi am **William George** (1820-64), tad Lloyd George, oddi wrth Mr Alan Hitch FLA (NLW ex 2079).

Casglwyd papurau ychwanegol **Bert Pearce**, aelod amlwg o'r Blaid Gomiwnyddol yng Nghymru, yn eu plith cofnodion Cyngres Cymru y Blaid Gomiwnyddol, papurau'n ymwneud â Phlaid Gomiwnyddol Prydain Fawr a'r

Chwith Democrataidd, taflenni etholiadol, dogfennau polisi, a phapurau amrywiol yn ymwneud â datganoli a charfanau adain chwith, c.1950-90.

Derbyniwyd hefyd papurau, c.1960-95, o eiddo Comiwnydd arall o ardal Caerdydd, y diweddar **Ronald Garrett-Jones**.

Cofnodion **Plaid Cymru / The Party of Wales**, c.1995-2000, gan gynnwys papurau yn ymwneud â'r Cynulliad Cenedlaethol, etholiadau, cynadledau, y pwyllgor gwaith, ffeiliau pwnc a gohebiaeth gyffredinol.

Derbyniwyd gohebiaeth, 1967, yn trafod y **TGWU** a sefydlu **TUC Cymru**, ynghyd â chylchlythyrau a phamffledi amrywiol, 1970-74, oddi wrth Neil Evans, Harlech (NLW ex 2076).

Derbyniwyd grŵp ychwanegol o bapurau **Clive Betts**, golygydd materion y Cynulliad gyda'r *Western Mail*, yn ymwneud yn bennaf â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, 1998-2000.



Plaid Gomiwnyddol Caerdydd yn 1925.

Mewn arwerthiant diweddar yn Sotheby's llwyddwyd i sicrhau papurau ychwanegol yr economegydd **Nassau William Senior** (1790-1864) (NLW 23857-60).

Papurau'r **Comisiwn Cyfle Cyfartal**, c.1997-2000, yn cynnwys deunydd printiedig a thoriadau o'r wasg yn bennaf.

Cofnodion **Undeb Ewropeaidd y Merched**, cangen Gogledd Cymru, 1979-2000, yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd a chyfarfodydd blynyddol, 1979-2000, gohebiaeth, 1984-96, a phapurau'n ymwneud ag aelodaeth a seminarau (NLW ex 2077).

Derbyniwyd papurau **Ymgyrch Unoliaeth Cymru Nicaragua** a gasglwyd gan Mike Webb, 1985-95, yn eu plith papurau'n ymwneud â'r etholiad yn Nicaragua yn 1990, grwpiau a phrosiectau amgylcheddol, America Ganol ac ardal Ocotal, cronfa goffa Tom Hargreaves, a Grŵp America Ganol Môn ac Arfon.

Etholiad Cyffredinol 2001

Dyrnod Prescott neu'r canlyniadau yn Ynys Môn a Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr? Beth bynnag yw'ch atgofion am yr Etholiad Cyffredinol, mae'r llenyddiaeth etholiadol ar gadw yn yr AWG. Hoffwn ddiolch i bob un a wnaeth ymateb i'n hapêl llwyddiannus am effemera etholiadol eleni.

Rydym yn argymhell y dylid gwneud ymholiadau ynglŷn â thelerau derbyn y papurau cyn ymweld â'r Llyfrgell. Ceir gwaharddiad ar weld neu atgynhyrchu nifer o gasgliadau diweddar yr AWG.